



Gwella Symudedd Cymdeithasol O Fewn Sector Cadwraeth Forol Cymru

Mawrth 2026



Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL

3

CEFNDIR Y PROSIECT


5

MEWNWELEDIADAU LLWYBRAU

14

NEWID SYLWEDDOL

43



Crynodeb Gweithredol

Symudedd cymdeithasol yw'r berthynas rhwng ein man cychwyn mewn bywyd a lle rydym yn gorffen fel oedolion – fel arfer mewn perthynas ag incwm, galwedigaeth a statws. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio sut y gellir gwella symudedd cymdeithasol yn y sector cadwraeth forol i bobl ifanc ar draws De-orllewin Cymru. Mae'n cysylltu â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o economi gryfach, tecach a gwyrddach.

Datgelodd y mewnwelediad bedwar maes allweddol a allai effeithio ar benderfyniad person ifanc i ddilyn y llwybr cadwraeth forol; cysylltiad â chefnfor/natur, ymwybyddiaeth o gyfle, dyheadau cymunedol a hyder academaidd. Ar y cam addysg bellach nid oes llwybrau galwedigaethol i'r sector cadwraeth forol yn lleol ar hyn o bryd, gan wneud y sector yn ddisbarth canol 'swyddogaethol'. Er mwyn i symudedd ar raddfa fawr ac eang fod yn bosibl, mae angen mwy o gyfleoedd i bobl symud i fyny i'r sector, ac nid dim ond trwy'r llwybr graddedigion.





I'r bobl ifanc hynny o gefndiroedd dosbarth gweithiol sy'n dilyn y llwybr graddedigion presennol, mae'n debygol y bydd angen mwy o gefnogaeth ecosystemau arnynt (e.e. mwy o gymorth ariannol a hyblygrwydd, mentora, cefnogaeth rhwydweithio) yn eu taith graddedigion. Bydd cyflogwyr sy'n blaenoriaethu symudedd cymdeithasol yn eu strategaethau AD/Pobl yn rhoi cyfle tecach i'r ymgeiswyr hyn lwyddo mewn marchnad swyddi cystadleuol iawn, gyda phrinder enfawr o swyddi graddedigion lefel mynediad i bawb, hyd yn oed cyn troshaenu symudedd cymdeithasol. Er bod ymgorffori symudedd cymdeithasol mewn sefydliadau yn ei ddyddiau cynnar o hyd, mae momentwm clir a chynyddol.

Mae'r adroddiad hwn yn gorffen gydag argymhellion ar gyfer llwybr galwedigaethol peilot cwbl gydgysylltiedig i'r sector cadwraeth forol a syniadau i drawsnewid y llwybr graddedigion presennol.

Cefndir y Prosiect

Cefndir

Er bod diddordeb cynyddol wedi bod ym mhwysigrwydd ymdrechion Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant yn y sector morol ac arfordirol, mae ymdrechion hyd yn hyn wedi canolbwyntio mwy ar ethnigrwydd a rhywedd, gyda llai o archwilio statws cymdeithasol, dosbarth a'u croestoriadau. Mae'r adroddiad hwn yn dechrau unioni'r cydbwysedd hwnnw trwy archwilio sut y gellir gwella symudedd cymdeithasol yn y sector cadwraeth forol i bobl ifanc ar draws De-orllewin Cymru. Roedd y gwaith yn ymdrech gydweithredol rhwng Pelagos a Fforwm Arfordir Sir Benfro a chynhaliwyd yr holl ymchwil rhwng Ionawr a Mawrth 2026.

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant, yn enwedig ei chenhadaeth economaidd o economi gryfach, tecach a gwyrddach. Yn erbyn y flaenoriaeth hon mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cysylltu twf economaidd â chynaliadwyedd amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol, gan geisio gwneud moroedd Cymru yn sbardun ffyniant wrth sicrhau bod ffyniant yn cael ei rannu'n deg ac wedi'i adeiladu ar amgylchedd naturiol iach. Mae hefyd yn cyd-fynd ag uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol am Gymru fwy cyfartal.

Er bod rhai o'r mewnwelediadau a'r argymhellion sy'n dilyn yn benodol i Dde-orllewin Cymru, mae mewnwelediadau eraill yn berthnasol i'r rhai sy'n ceisio mynd i'r afael â symudedd cymdeithasol yn y sector cadwraeth forol ar draws y DU.

Gyda diolch i Gronfa Gwydnwch Morol Llywodraeth Cymru am gefnogi'r gwaith pwysig hwn.



Methodoleg y Prosiect

Roedd y fethodoleg yn cynnwys adolygiad desg cynhwysfawr, cyfres o gyfweiliadau manwl â rhanddeiliaid a sesiwn cyd-greu a gynhaliwyd ar y cyd â Sea Ranger Service, gan archwilio sut i adeiladu llwybrau hygrych i yrfaoedd glas.

Cynhaliwyd chwech ar hugain o gyfweiliadau gyda chyflogwyr lleol, cyflogwyr cenedlaethol (gyda chyfleoedd lefel mynediad lleol), colegau, prifysgolion, adrannau'r llywodraeth a galluogwyr eraill ar gyfer newid. Mewn rhai sefydliadau, cyfwelwyd â nifer o unigolion o wahanol adrannau i gael safbwyntiau amrywiol ar wella symudedd cymdeithasol. Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd gydag ugain o bobl ifanc (16-26 oed) o bob cwr o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe. Roedd y bobl ifanc hyn mewn gwahanol gyfnodau o'u bywydau academaidd a gwaith; yn y coleg, yn chwilio am swydd neu mewn swyddi cadwraeth forol lefel mynediad.

Diolch i'r unigolion o'r sefydliadau a gymerodd ran yn y gwaith hwn a'r bobl ifanc a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau.



Diffinio Cadwraeth Forol ar gyfer yr Astudiaeth hon

At ddibenion yr astudiaeth hon, mae'r llwybr cadwraeth forol yn cyfeirio at un sy'n arwain at swydd sy'n canolbwyntio yn y pen draw ar greu cefnfor mwy *gwydn*.

Cynhaliwyd bron pob cyfweiliad â rhanddeiliaid gyda chyflogwyr sy'n gweithredu ym meysydd cadwraeth, natur, adfer, ymchwil a rheoli cefnforoedd.

Cyffyrddodd y gwaith hefyd â rhai rolau mewn elfennau o wynt ar y môr, twristiaeth, dyframaethu, morwrol a physgota.



Cadwraeth

Gwarchod a chadwraeth amgylcheddau morol a'u hadnoddau i gynnal bioamrywiaeth, adfer ecosystemau a sicrhau defnydd cynaliadwy

Defnyddio adnoddau cynaliadwy

Ecsbloetio

Gweithredoedd sy'n arwain at ddifrodi neu golli ecosystemau morol



Trosolwg o Symudedd Cymde

Symudedd cymdeithasol yw'r berthynas rhwng ein man cychwyn mewn bywyd a lle rydym yn gorffen fel oedolion. Weithiau defnyddir y term yn gyfnewidiol â dosbarth, sy'n ceisio categoreiddio unigolion i set o gategoriâu cymdeithasol hierarchaidd, y mwyaf cyffredin yw'r dosbarth gweithiol, y dosbarth canol a'r dosbarth uwch. Mae dosbarth yn strwythur cymdeithasol amlddimensiwn. Mewn polisi, mae'r DU yn bennaf yn defnyddio Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol i'w fesur ac yn grwpio pobl yn ôl cysylltiadau cyflogaeth (diogelwch swydd, ymreolaeth) a galwedigaeth.

Mae fframwaith mwy newydd, yr Arolwg Dosbarth Prydain Fawr, yn diffinio dosbarth gan ddefnyddio tri math o gyfalaf; economaidd (incwm, cyfoeth), diwylliannol (addysg, chwaeth) a chymdeithasol (rhwydweithiau, cysylltiadau) - ac yn nodi 7 dosbarth gwahanol. Nid hierarchaeth syml yw dosbarth mwyach ond system gymhleth o haenu sy'n adlewyrchu realiti newidiol cymdeithas Prydain. At ddibenion yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio'n fras at bobl ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol fel y rhai o gartrefi incwm is sydd â mynediad at gyfleoedd gwaeth, gan gydnabod bod gwahaniaethau enfawr o ran profiad o fewn hyn. Lle rydym yn siarad am bobl ifanc o gefndiroedd dosbarth canol rydym yn cyfeirio at y rhai sydd ag incwm cartref cymedrol a mynediad gwell at gyfleoedd.

Mae gan y DU un o'r cyfraddau symudedd cymdeithasol [gwaethaf](#) yn y byd datblygedig. Ar draws ystod o sectorau, mae pobl fwyaf pwerus a dylanwadol y DU [bum gwaith](#) yn fwy tebygol o fod wedi mynychu ysgolion preifat na'r boblogaeth gyffredinol; addysgwyd hanner colofnwyr papurau newydd, bron i hanner gohebwyd gwleidyddol, mwy na thraean o weithredwyr y BBC a chwarter o Aelodau Seneddol yn breifat.

Ychydig o gonsensws sydd ynghylch achosion symudedd cymdeithasol gwael y DU ond credir ei fod wedi'i effeithio gan fwlch cyfoeth sy'n ehangu ochr yn ochr â gostyngiad mewn cyflogau real a mynediad i'r farchnad dai. Mae bwllch cyfoeth y DU wedi tyfu'n sylweddol, tra bod cyflogau wedi aros yn eu hunfan. Canfu ymchwil gan y [Resolution Foundation](#) y byddai wedi cymryd 38 mlynedd o enillion llawn amser canolrifol rhwng 2006 a 2008 i godi gweithiwr i'r 10% uchaf o'r dosbarthiad cyfoeth. Erbyn 2020 i 2022 roedd y bwllch hwnnw wedi ehangu, felly byddai'n cymryd 52 mlynedd o enillion h.y. ni fyddai gweithiwr llawn amser nodweddiadol sy'n arbed ei holl enillion ar draws ei fywyd gwaith cyfan yn gallu cyrraedd brig yr ysgol gyfoeth o *hyd*.

Mewn arolwg diweddar gan y [Co-op](#), cytunodd 68% o'r ymatebwyr fod cefndir person, gan gynnwys eu hacen, incwm teuluol neu ysgol, yn effeithio ar eu cyfleoedd gyrfa, gyda'r ymatebwyr dosbarth gweithiol yn nodi cost addysg uwch (31%), rhagfarn mewn recriwtio (28%) a diffyg hyder neu rwydweithiau proffesiynol (25%) fel eu prif rwystrau.

Mae gan y DU anghydraddoldebau daearyddol sylweddol hefyd, gyda buddsoddiad a chreu swyddi medrus wedi'u crynhoi yn y De-ddwyrain a Llundain. Yn ôl mapio symudedd cymdeithasol [Sutton Trust](#) yn Lloegr, mae'r 20 etholaeth gyda'r safleoedd uchaf ar gyfer cyfle i gyd wedi'u lleoli yn Llundain. Er bod y brifddinas yn gystadleuol iawn, mae hefyd yn cynnig llawer mwy o ysgolion ar gyfer symudedd i fyny. Yn gyffredinol, canfuwyd y cyfleoedd isaf mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol, arfordirol a gwledig.



Datgelodd ymchwil gan y Co-op a'r Demos yn ddiweddar fod economi'r DU yn colli allan ar £19 biliwn mewn twf Cynnyrch Domestig Gros bob blwyddyn oherwydd methiant systemig i hyrwyddo symudedd cymdeithasol mwy yn y gweithle. Gallai symudedd cymdeithasol mwy gynhyrchu £6.8 biliwn mewn refeniw treth blynyddol i'r Llywodraeth o weithgarwch economaidd ychwanegol – digon i dalu am dros 170,000 o athrawon.

A yw Symudedd Cymdeithasol yn Anoddach yng Nghymru?

Gall lleoliad daearyddol Cymru wneud symudedd cymdeithasol i bobl ifanc yn llawer mwy heriol, yn enwedig y tu allan i ganolfannau trefol fel Caerdydd. Mae llawer o gymunedau wedi'u hynysu a gall cysylltiadau trafnidiaeth gwael ei gwneud hi'n anoddach cael mynediad i brifysgolion, prentisiaethau, interniaethau, neu swyddi sgiliau uwch. Mae trafnidiaeth yn broblem strwythurol sylfaenol allweddol.

Mae adroddiad [UK Poverty](#) The Joseph Rowntree Foundation yn dangos, o blith pedair gwlad y DU, mai Cymru sydd â'r lefelau tlodi uchaf yn gyson, a dim ond ychydig yn is na Llundain y mae'r lefelau hyn, ac yn debyg i rai'r Gogledd-ddwyrain. Mae tua [31%](#) o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi, ymhlith y cyfraddau uchaf yn y DU. Mae llawer o'r plant hyn yn byw mewn cartrefi lle mae o leiaf un oedolyn yn dal i weithio.

Mae tlodi yn rhoi pobl ifanc dan anfantais o oedran cynnar oherwydd mynediad gwaeth at adnoddau, presenoldeb is yn yr ysgol a lles is a disgwiliadau a hyder is. Mae [data'n](#) dangos yn gyson bod disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim yn cyflawni canlyniadau TGAU is ar gyfartaledd ac yn llai tebygol o fynd ymlaen i addysg bellach neu uwch.



Mewnwelediadau Llwybrau

“Britain does not have a talent problem,
it has a system that quietly filters talent
out - class, geography, race, income and
access stop people from being in the room”

Nazir Afzal, Canghellor Prifysgol Manceinion


(adolygodd gyfranogiad y dosbarth gweithiol yn y celfyddydau)

Model o Newid System

Mae'r model hwn yn ceisio amlinellu rhai o'r elfennau allweddol y mae angen iddynt fod ar waith i ehangu mynediad i'r sector cadwraeth forol i bobl ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol ac atal talent rhag cael ei hidlo allan *yn dawel*. Datgelodd y mewnwelediad bedwar elfen allweddol a allai effeithio ar benderfyniad person ifanc i ddilyn y llwybr cadwraeth forol i ddechrau, yn ogystal â nifer o 'ecosystemau cymorth' eraill y byddai eu hangen yn ystod ac ar ôl addysg bellach, er mwyn cynyddu'r siawns o lwyddo i rolau lefel mynediad a thu hwnt i hynny.

Er nad yw'r model hwn o newid system yn gynhwysfawr, mae'n ceisio egluro ac amlygu'r meysydd allweddol y mae angen eu hystyried i gyflawni amcanion polisi.

Yn aml, mae polisiâu symudedd cymdeithasol yn methu oherwydd eu bod yn tueddu i ganolbwyntio ar wella cyfleoedd unigol yn hytrach na mynd i'r afael â phroblemau strwythurol dyfnach, rhywbeth y mae'r model hwn yn ei amlygu.



Prinder swyddi lefel mynediad

Cyn archwilio'r model hwn yn fanwl, mae'n werth nodi bod prinder enfawr o swyddi cadwraeth forol lefel mynediad i bawb, hyd yn oed cyn troshaenu symudedd cymdeithasol. Er bod polisi'r llywodraeth yn pwysleisio addysg, sgiliau, hyfforddiant ac ehangu mynediad, mae'r diffyg swyddi yn y sector yn golygu y bydd gan unigolion dosbarth canol gyfleoedd cyfyngedig yn lleol hefyd. Mae cyflogwyr yn disgrifio cael eu boddi gan ymgeiswyr am rolau morol ac mae pobl ifanc, gyda chymwysterau a phrofiad sylweddol, yn disgrifio teimlo'n 'sownd'.

Mae'r broblem hon yn digwydd ar lefel leol a chenedlaethol ac yn gwneud rhoi cyngor gyrfaoedd yn gymhleth, wrth ystyried moeseg hyrwyddo rolau mewn sector ansicr, i bobl sydd angen cyflogaeth ddiogel fwyaf. **Mae angen mynd i'r afael â'r mater economaidd strwythurol hwn ac mae angen mwy o swyddi lefel mynediad ar y sector.**


Prinder swyddi lefel mynediad

“Dw i’n hollol sownd erbyn hyn. Dw i wedi bod yn gwneud cais am 6 mis. Mae pob swydd yn dod yn ôl gyda ‘Annwyl Ymgeisydd, rydym wedi cael cymaint o geisiadau...’ Mae’r rhan fwyaf o swyddi angen gradd Meistr. Dw i’n adnabod cymaint o bobl sydd gyda Gradd Meistr ond yna yn yr un sefyllfa. Dw i’n credu mai PhD fyddant yn gofyn amdano nesaf”

“Mae’n tynnu sylw at ba mor ofnadwy yw’r sefyllfa hon i bobl ifanc sy’n ceisio ymuno â’r sector a pha mor daer y mae angen cyllid arno”

“Yn yr ardal forol rydym wedi cael ein boddi â cheisiadau pan rydym wedi bod yn hysbysebu rolau. Derbyniodd y rôl ddiwethaf 293 o geisiadau”

“Dw i bob amser yn teimlo fel fy mod yn gwerthu tocynnau i gig sydd wedi’i or-danysgrifio”



SWYDD
CADWRAETH
FOROL LEFEL
MYNEDIAD YNG
NGHYMRU

Dim llwybrau galwedigaethol/ cyfyngedig i'r sector

Mae llwybrau galwedigaethol cyfyngedig neu ddim llwybrau galwedigaethol i'r sector cadwraeth forol ar hyn o bryd hefyd. Er nad oedd yr ymchwil hon yn gynhwysfawr, ni allai unrhyw randdeiliaid a gyfwelwyd sôn am lwybr galwedigaethol lleol i'r sector cadwraeth forol. Er bod Prentisiaethau Lefel 2 a 3 mewn Cadwraeth Amgylcheddol yn bodoli, ni allai'r ymchwil nodi unrhyw gyfleoedd i bobl ifanc yn Sir Benfro, Caerfyrddin nac Abertawe ymgymryd â'r rhain. Mae hyn eisoes yn gwneud y sector yn ddosbarth canol 'swyddogaethol'.

Er mwyn i symudedd tuag i fyny ar raddfa fawr ac eang fod yn bosibl, mae angen mwy o gyfleoedd i bobl symud i fyny iddo, ac nid dim ond o'r llwybr graddedigion. Yn ôl y [Social Mobility Commission](#), mae'r pwyslais hanesyddol ar sicrhau lleoliadau prifysgol haen uchaf i fyfyrwyr difreintiedig yn rhy gul.


Mae'r dull hwn yn anwybyddu potensial galwedigaethol ehangach ac yn y pen draw dim ond lleiafrif bach sydd o fudd iddo. Dylid rhoi mwy o sylw i'r bobl hynny sydd â'r lleiaf o hyfforddiant a chymwysterau i roi gwell cyfle iddynt ddod o hyd i swydd dda.

Dim llwybrau galwedigaethol/cyfnygedig i'r sector

“Dw i'n meddwl ei fod yn brin iawn, o'nd yw e, mewn cadwraeth yn unman y gallwch chi fynd iddo heb y llwybr prifysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl rydyn ni'n eu gweld, y rhan fwyaf o'r interniaethau a'r gwirfoddolwyr ifanc yn gwirfoddoli gyda ni i fynd i'r brifysgol neu'n gwirfoddoli gyda ni ochr yn ochr â'r brifysgol oherwydd eu bod nhw eisiau'r profiad hwnnw”

“Ein problem fawr ni yw llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol, maen nhw i gyd yn siarad am brentisiaethau. Wyddoch chi, dyna'r ffordd ymlaen. Ond mae ceisio cael prentisiaethau iddyn nhw bron yn amhosibl”

“Dydw i ddim yn gwybod am unrhyw brentisiaethau ym maes cadwraeth forol y tu allan i'r Brifysgol. Ie, dydw i ddim yn meddwl fy mod i wedi clywed am un”



LWYBRAU
GALWEDIGAETHOL
(cyfyngedig ar
hyn o bryd / dim)

Potensial twf yn y sector cadwraeth forol?

Er gwaethaf y cefndir gwael hwn o ran nifer y swyddi lefel mynediad ar hyn o bryd, roedd lle i optimistiaeth ynghylch twf gan lawer o randdeiliaid:

“Dw i’n teimlo’n obeithiol y bydd twf mewn adfer a chadwraeth am y tro cyntaf. Mae’r blynyddoedd diwethaf i gyd wedi bod yn ansicr ond ers i Gyfoeth Naturiol Cymru lansio eu hasesiadau swyddogol bod pethau mewn cyflwr gwael, dw i’n credu bod y ‘swyddogolrwydd’ yn gyrru gweithredu”

“Byddwn i’n dychmygu y bydd cyfle ochr yn ochr â thwf ynni gwynt ar y môr. Dw i’n adnabod rhywun a oedd yn gorfod symud i ffwrdd o Sir Benfro pan oedd yn ifanc i weithio. Mae ganddo radd mewn bioleg y môr. Am 10, 15 mlynedd o’i yrfa, nid oedd unrhyw opsiynau o gwmpas yma. Ond nawr, oherwydd y maes twf hwn sy’n dod, gofynnwyd iddo wneud gwaith. Mae’n gweithio i lawr yma nawr ac mae’n cael digon o waith i ddechrau cyflogi pobl felly mae’n adeiladu. Dw i’n credu y bydd yn dod law yn llaw â rhyw fath o broses gynllunio a datblygu gyda’r ynni gwynt ar y môr y bydd mwy o gyfleoedd”

“Felly ar hyn o bryd, yn ôl y ffigurau sydd gennym, rydym yn edrych ar 27 o swyddi prentisiaeth i’w lansio o fewn y pedair wythnos nesaf a 68 o swyddi graddedigion o fewn y pedair wythnos nesaf. Felly mae hynny’n cyfateb i tua 3% o’n gweithlu cyfan. Ein strategaeth erbyn 2030 yw bod yn gyflogwr o 5%”

Cyhoeddodd Cronfa MARINE Cymru (MFC) ymrwymiad o £500k gan Ystad y Goron ym mis Ionawr 2026 – mae MFC yn fecanwaith hirdymor sy’n buddsoddi mewn rhaglenni a phrosiectau sy’n galluogi, cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau morol ac arfordirol Cymru.





Cysylltiad Cefnfor/Natur

Yr elfen gyntaf y mae angen iddi fod ar waith i osgoi hidlo talent allan yn dawel yn y llwybr cadwraeth forol yw rhyw fath o gysylltiad emosiynol â natur a/neu'r cefnfor sy'n ysbrydoli awydd i weithio yn rhywle yn y sector. Gall y cysylltiad hwn ddod trwy nifer o sianeli gan gynnwys bywyd teuluol, ysgolion a'r cyfryngau. Amser rheolaidd mewn natur yn ystod plentyndod, athro ysbrydoledig, chwilio mewn pyllau creigiau gyda thaid neu nain/tad-cu neu fam-gu neu obsesiwn cynnar â phryfed yn y pen draw yn arwain at y cefnfor, i gyd yn rhan o straeon y rhai a ddilynodd y llwybr wedi hynny.

Nid oes rhaid i gysylltiad fod yn gydradd â mynediad ond gall mynediad fod yn agwedd bwysig iawn ar gysylltiad. Er gwaethaf agoswydd at yr arfordir, nid yw rhai pobl ifanc yn Ne-orllewin Cymru yn ymweld â'r arfordir. Er bod llawer o waith cadarnhaol yn digwydd i wella mynediad at fannau glas, nid yw rhai cymunedau ac ysgolion yn cael eu cyrraedd ac mae rhai sefydliadau sy'n ceisio gwella cysylltedd y cefnfor yn dweud y gallant weithiau weithredu mewn siambrau adlais.

Credir hefyd fod rhwystrau strwythurol fel trafndiaeth a mynediad at doiledau cyhoeddus yn llesteirio cynnydd gyda mynediad. Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod cau cynyddol toiledau cyhoeddus yn ei gwneud hi'n amhosibl mynd â grwpiau i'r traeth mewn rhai ardaloedd.

Lle mae pobl yn cyrraedd yr arfordir ac yn mwynhau'r dŵr, gallant weithiau fod yn gwneud hynny ar lefel yr wyneb. Mae rhai sefydliadau'n ceisio pontio'r bwlch hwnnw drwy gysylltu pobl â'r bywyd morol anhygoel o dan yr wyneb. Mae maes ehangach cysylltedd natur wedi dangos mai sylwi ar natur, nid amser ynghanol natur, sy'n arwain at y lefelau mwyaf o [gysylltedd](#).

Cysylltiad Cefnfor/Natur

“Tyfais i fyny mewn teulu rhiant sengl mewn ystâd gyngor ac o gefndir ethnig. Dw i’n credu y byddai wedi ymddangos yn rhywbeth pellgyrhaeddol iawn i mi ystyried unrhyw beth mewn cadwraeth forol. Doedden ni ddim yn nofio yn y môr mewn gwirionedd, tra bod llawer o fy ffrindiau eraill o gefndiroedd mwy dosbarth canol, maen nhw’n nofwyr môr, maen nhw’n gwneud padlfyrddio. Maen nhw wedi cael amlygiad i lawer mwy o’r pethau hyn drwy gydol eu bywydau”

“I mi, cael yr athrawon brwdfrydig ac angerddol hynny a ddaeth â’r pwnc yn fyw iawn. Tirweddau mawr, lleoedd cyffrous, lleoedd tramor. Roedd yn ddihangfa braf i mi, yn dod o gefndir anodd. Felly roeddwn i eisiau trochi fy hun ynddo’n fwy. Dw i’n meddwl y gallai fod wedi bod yn wahanol iawn pe bai gen i athrawon daearyddiaeth a bioleg llai brwdfrydig, dim ond trwy siawns”

“Mae gennych chi rai o’r lefelau uchaf o dlodi plant yma yn Sir Benfro a rhai o’r plant hynny, byddwn i’n dweud, ydych chi’n mynd i’r traeth? A dydyn nhw erioed wedi bod i’r traeth. Rydych chi’n llythrennol 5 milltir o’r traeth a dydych chi erioed wedi bod i’r traeth”

“Y cyfyngiad mawr yma, ac mae’n debyg ei fod yr un peth mewn llawer o leoedd, y peth y mae pawb yn taro eu pen yn erbyn y wal yn ei gylch yw lle mae llawer o doiledau cyhoeddus ar gau ac mae hynny’n ei gwneud hi’n llai hygyrch i bawb. Ni allwn fynd â grwpiau i le lle nad oes toiled”



CYSYLLTIAD
CEFNFOR / NATUR

Ymwybyddiaeth o Gyfleoedd

Os yw pobl ifanc yn datblygu ymdeimlad o gysylltiad â'r cefnfor neu natur, yna mae angen iddynt ddeall y cyfleoedd sydd ar gael iddynt weithio yn y maes. Mae dealltwriaeth wael o swyddi yn y sector ar hyn o bryd. Yn aml, mae 'swyddi glas' yn cael eu rhoi gyda 'swyddi gwyrdd' ac mae rhai rhanddeiliaid yn disgrifio 'dallineb môr' i'r cyfleoedd sydd ar gael, er gwaethaf llawer yn cydnabod bod yr arfordir yn unigryw i'r ardal. Credir bod y sector yn cael trafferth gyda nifer o faterion allweddol.

Mae cyfansoddiad presennol y sector yn golygu bod pobl ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol yn llai tebygol o weld modelau rôl sydd eisoes wedi dilyn y llwybr hwn ac felly'n methu â gweld eu hunain yn y rolau hyn. Hefyd, ychydig o rwydweithiau cyfoedion sydd - mae dysgwyr yn cael eu cymell yn gryf pan welant ffrindiau'n llwyddo trwy lwybrau ond bydd llawer o bobl ifanc medrus yn gadael Cymru am swyddi mewn cadwraeth forol.

Yn wahanol i addysgu, cyfrifeg, y gyfraith, neu nyrsio lle mae llwybrau'n eithaf llinol ac eglur, yn aml mae diffyg eglurder ynghylch at beth mae gradd mewn bioleg/gwyddor forol yn arwain. Gall llwybr i'r sector fod yn llawer mwy 'anwadal' yn aml gyda llawer o randdeiliaid a gyfwelwyd yn disgrifio eu hochr-gamu eu hunain i fynd mewn iddo. Mae'r diffyg eglurder hwn yn golygu y gallai rhieni fod angen sicrwydd yn aml ynghylch at beth fydd gradd mewn gwyddor forol yn arwain ac mae gan rai ganfyddiadau gwael ohono e.e. gwaith tymhorol.

Efallai mai un o'r problemau mwyaf sydd gan y sector o ran ymwybyddiaeth yw'r rolau 'carismatig' mwy gweladwy (e.e. tagio dolffiniaid) o'i gymharu â'r gyfran lawer mwy o rolau desg llai gweladwy, yn enwedig ym maes rheoli cefnforoedd. Mae angen adrodd hanes y mathau hyn o swyddi, sy'n ffurfio cyfran fawr o rolau, yn well. Mae hefyd llawer llai o ymwybyddiaeth o'r llwybrau i'r sector cadwraeth forol nad ydynt yn rhai gwyddoniaeth e.e. digidol, celfyddydau ac adrodd straeon, marchnata ac ati. Byddai arolwg gweithlu ar swyddi presennol a chymwysterau gofynnol, yn ogystal â phob swydd a allai fod ei hangen yn yr economi las, yn ddefnyddiol iawn i gryfhau dealltwriaeth o'r dirwedd bresennol yn ogystal â chyfleoedd a sgiliau yn y dyfodol.

Credir hefyd fod y Cwricwlwm newydd i Gymru yn gyfle cadarnhaol i wella ymwybyddiaeth. Gan ei fod yn canolbwyntio ar brofiad dysgu mwy personol a diddorol a chreu dinasyddion moesegol a gwybodus, credir bod ganddo'r potensial i gysylltu mwy â chyd-destunau, sgiliau a swyddi lleol.




Ymwybyddiaeth o Gyfleoedd

“Byddwn i’n dweud nad ydyn nhw’n gwybod beth yw’r swyddi yn y maes hwnnw. Felly efallai bod ganddyn nhw ddiddordeb mewn cadwraeth neu mewn ynni adnewyddadwy, ond ni fydden nhw’n gwybod sut olwg sydd ar hynny, wyddoch chi”

“Hynny yw, rydw i wedi caru fy holl yrfa. Ond yn y bôn, rydych chi’n cael eich talu i siarad a meddwl! Mae’n eithaf anodd yn yr hyn mae fy nhîm yn ei wneud, sef eistedd o flaen cyfrifiadur y rhan fwyaf o’r dydd yn siarad â phobl. Mae’n eithaf anodd esbonio hynny. Rydych chi fel, dw i’n ceisio cael trydan i bawb yn y môr mewn ffordd nad yw’n difetha’r amgylchedd morol, ond a allai hefyd greu swyddi i bobl yn lleol. A dw i’n meddwl bod hynny’n eithaf anodd i blentyn ei ddeall, a hyd yn oed i berson ifanc ei ddeall”

“I didn’t even realise that the consultancy world existed until I finished my PhD”

“Dw i wedi gweithio yn y sector hwn ers dros 20 mlynedd ac nid wyf wedi bod ar gwch i weithio”





Dyheadau Cymunedol

Os bydd pobl ifanc yn datblygu ymdeimlad o gysylltiad â'r cefnfor ac yn deall y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, gall dyheadau eu cymuned chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau hefyd. I rai, yn enwedig mewn cymunedau agos, bydd angen iddynt deimlo bod eu dewisiadau'n cael eu cefnogi. Ydyn nhw'n mynd yn groes i'r graen? A yw'r gymuned o'u cwmpas yn gefnogol ac yn galluogi gyrfa cadwraeth forol?

I ddilyn y llwybr cadwraeth forol ar hyn o bryd, bydd yn rhaid i berson ifanc ddilyn y llwybr graddedigion. Gall hyn ynddo'i hun fod yn broblemus a golygu eich bod chi'n mynd yn groes i'r graen. Er ei fod yn gefnogol, gall rhai cymunedau atgyfnerthu disgwyliadau i aros yn lleol ac annog pobl i beidio â chymryd risgiau neu ddilyn llwybrau anghyfarwydd.


Mae hefyd yn bwysig ystyried pa naratifau cystadleuol eraill a allai fod o sectorau mwy adnabyddus a chyfarwydd. Yn Sir Benfro, er enghraifft, mae olew a nwy yn gyflogwr allweddol a gweladwy sydd wedi bod yn rhan annatod o'r ardal ers amser maith, gan gynnig swyddi sefydlog ac yn aml â chyflog da gyda phresenoldeb a dylanwad cryf.

Dyheadau Cymunedol

“Dw i'n credu fy mod i wedi bod yn eithaf lwcus mewn rhai ffyrdd, hynny yw, mewn ystyr wledig, bod y peth hwnnw'n bodoli o hyd, unwaith y byddwch chi'n mynd i'r brifysgol 'o, rydych chi'n un ohonyn nhw'. Ond mae fy rhieni'n adeiladwyr ac roedd cysylltiad digon da yn y gymuned o hyd fel nad oeddwn i'n cael fy ngweld fel academydd wrth ddychwelyd. Doeddwn i byth yn teimlo fy mod i'n bradychu cymuned ond dw i'n credu y byddai potensial ar gyfer hynny i rai yn bendant”

“Rydyn ni'n cael llawer o bobl ifanc yn dod i wneud peirianeg yn y coleg oherwydd bod Ewythr yn Valero ac felly mae wedi talu llawer o arian ac maen nhw eisiau bod fel ef oherwydd bod ganddo gar neis. Mae llawer ohonyn nhw'n ciwio ac maen nhw i gyd yn deall y diwydiant hwnnw oherwydd ei fod wedi bod yn rhan annatod o Sir Benfro ers amser maith”

“Fi oedd yr unig un o un o ddeg yn fy ngrŵp ffrindiau a aeth i'r Brifysgol”



Hyder Academaidd

Yna bydd angen i bobl ifanc orffen y system addysg gan deimlo'n hyderus yn academaidd. Ar hyn o bryd, yr unig opsiwn i ddilyn rôl yn y sector cadwraeth forol yw trwy'r llwybr graddedigion, felly bydd angen i bobl ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol deimlo'n hyderus ei bod hi'n werth y risg ariannol i'w chymryd. Arferai prifysgol fod yn fecanwaith symudedd cymdeithasol dibynadwy ond mae ei chanlyniadau bellach yn llai sicr.

Mae amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â chanlyniadau addysgol gwaeth mewn plant ac ni fydd rhai o'r bobl ifanc mwyaf disglair yn gadael y system addysg gan deimlo'n hyderus yn academaidd. Gall canfyddiadau bod swyddi/llwybrau morol ar gyfer pobl 'glyfar' weithredu fel rhwystr pellach i ddilyn llwybrau. Disgrifiodd pobl ifanc yn gyson bobl mewn swyddi cadwraeth forol fel rhai sydd 'wedi'u gyrru', 'clyfar' a 'deallus iawn'.

Mae'n gyfnod arbennig o anodd i roi cyngor gyrfaoedd. Er y bydd cynghorwyr gyrfaoedd eisiau ysbrydoli hyder a dyhead mewn dysgwyr ifanc, maen nhw hefyd yn ymwybodol iawn eu bod nhw'n gwneud cam â nhw os nad ydyn nhw'n bod yn onest am y farchnad a'r rhagolygon cyfredol.




Hyder Academaidd

“Os yw swydd cadwraeth forol yn cael 300 o geisiadau, mae angen rhoi gwybod i’r ysgolion ac i ni am hynny yn rhywle. Mae angen i ni ddweud wrth y disgyblion hyn, edrychwch, Mae’n ddiwydiant anodd iawn. Wyddoch chi, peidiwch â disgwyl gwneud tair blynedd yn y coleg a cherdded i mewn i swydd oherwydd yna rydyn ni’n gwneud cam â’n disgyblion os nad ydyn ni’n dweud wrthyn nhw sut beth ydyw mewn gwirionedd ac rydyn ni’n dweud wrthyn nhw, ie, o ie, mae’n wych, ie”

“Dw i’n meddwl, os edrychaf yn ôl nawr ar fy nghylch ffrindiau yn tyfu i fyny, dw i’n meddwl mai fi yw’r unig un ohonom ni a aeth ymlaen i’r brifysgol. Dw i’n cofio un ffrind yn benodol yn gwneud ei harholiadau Safon Uwch ac nid oedd hi’n meddwl y byddai hi’n gallu eu gwneud, er ei bod hi’n glyfar iawn”

“Rydych chi’n cael llawer o blant yn gadael yr ysgol yn meddwl eu bod nhw’n ddiwerth ac yn dwp ac mae fel, na, mae’n debyg bod gennych chi ymennydd gwahanol a dyna pam nad yw’r ysgol yn gweithio i chi. Ac felly mae’n, ie, ceisio cael gafael ar rai o’r bobl hynny a’u dyrchafu”





Cymorth Ariannol

I bobl ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol sy'n dilyn graddau mewn gwyddor forol, rhaid i brifysgolion ddeall eu realiti ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn ffynnu. Mae'n debygol y bydd angen mwy o gymorth ariannol a hyblygrwydd arnynt na'u cyfoedion dosbarth canol.

Mae lleoliadau/interniaethau rhyngosod di-dâl yn aml yn nodwedd allweddol o lwybrau cadwraeth forol ac maent wedi'u normaleiddio'n fawr yn y sector. Er y gellir cael cyllid prifysgol yn ystod y flwyddyn rhyngosod hon, mae angen i lawer o bobl ifanc wneud gwaith â thâl yn ogystal i gynnal eu hunain. Gall hyn fod yn heriol pan ofynnir iddynt lofnodi ffurflenni i ddweud na fyddant yn ymgymryd â gwaith â thâl yn ystod blwyddyn leoliad, neu pan fydd blynyddoedd lleoliad yn 12 mis anhyblyg ac maent am weithio yn ystod gwyliau'r haf.

Disgrifiodd rhai pobl ifanc gamgymeriadau a wnaed ar eu cymorth ariannol a welodd arian yn cael ei dynnu'n ôl yng nghanol blwyddyn leoliad, gan wneud y profiad yn un llawn straen.

Bydd rhai rolau hefyd yn gofyn am drwyddedau gyrru fel rhagofyniad ond mae'n dod yn fwyfwy drud cael un, gan ychwanegu rhwystr ariannol pellach. Mae angen cydnabod ac adnabod yr holl realiti ariannol hyn er mwyn osgoi colli mwy o dalent yn dawel ar y cam hwn o'u taith.


Cymorth Ariannol

“Dw i’n gwybod fy mod i wedi bod yn ffodus i gael ei gynbig ond gwnaeth y diffyg cyflog y flwyddyn honno'n anodd iawn, iawn. Fyddwn i ddim wedi gallu ei orffen oni bai am gymorth gan fy nhaid/tad-cu”

“Dywedais wrth fy ffrindiau fy mod i’n gwneud interniaeth ddi-dâl ac roedden nhw’n meddwl fy mod i’n ffwl”

“Mae’n dod yn fwyfwy drud i basio prawf gyrru – gan wneud hyn yn broblem dosbarth i’r rhai nad yw eu rhieni’n gallu fforddio cefnogi gwersi. Ac mae hyd yn oed yn anoddach i’r rhai sydd â rhai anableddau”

“Mae gen i fy amheuan amdano drwy’r amser



Cymorth Ar ôl y Brifysgol

Mae llawer o bobl ifanc yn gweld mai'r cyfnod ar ôl y brifysgol yw'r rhan fwyaf heriol o'u taith; yn aml dyma pryd mae'r bwlch rhwng y rhai sydd â rhwydweithiau a chyllid, a'r rhai hebddynt, yn dod yn fwyaf amlwg.

Nodwedd normal arall o lwybr cadwraeth forol yw'r angen am brofiadau gwirfoddol i gryfhau CV a sefyll allan ymhlith y dorf. I'r rhai heb gyllid, mae'r opsiwn o ymgymryd â phrofiadau gwirfoddol dramor, interniaethau di-dâl pellach, gradd meistr, neu gael cymwysterau deifio ac ati i gyd yn llawer llai ymarferol.

Er mwyn sicrhau nad yw mwy o bobl ifanc yn cael eu colli'n dawel ar y pwynt hwn, bydd angen mwy o gefnogaeth arnynt gyda rhwydweithio, mentora a chyfeirio yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer profiadau ychwanegol sy'n eu targedu'n uniongyrchol. Mae [Sharkademy](#) yn Sir Benfro yn cynnig profiad gwaith maes siarcod preswyl i fiolegwyr gyrfa gynnar o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, gan sicrhau chwarae teg yma.

Mae rhai rhanddeiliaid yn awgrymu bod cyfnod hollbwysig o chwe mis bellach i gadw pobl ifanc ar y trywydd iawn ac i mewn i swydd lefel mynediad yn y sector, neu efallai y byddant yn cael eu colli i sectorau eraill. Mae'r argyfwng cost byw yn golygu bod angen i bobl ifanc weithio ac na allant aros cyn mynd i mewn i'r sector, oni bai bod ganddynt rieni cefnogol. Credir bod y dirwedd hon wedi newid llawer dros y degawdau diwethaf.

Nodwyd hefyd fod diffyg cefnogaeth gwirioneddol i bobl ifanc ar ôl 25 oed. O ystyried natur anwadal llwybrau gyrfa i'r sector a'r ffaith y bydd rhai pobl ifanc yn teimlo'r angen i ymgymryd â gradd meistr i aros ar y blaen, mae'n rhesymol y bydd angen cefnogaeth ar bobl ifanc am gyfnod hirach o amser.




Sharkademy: preswylfa arbenigol siarcod gyntaf y DU ar gyfer biolegwyr a chadwraethwyr gyrfa gynnar.

Cymorth Ar ôl y Brifysgol

“Ac yna mae’r costau byw, felly mae’n rhaid iddyn nhw gael swydd. Ac, wyddoch chi, eu hangerdd yw’r diwydiant morol neu gallai fod yn bensaerniaeth neu beth bynnag. Ac os nad ydyn nhw’n cael swydd o fewn 3, 4, 5, 6 mis, maen nhw’n mynd i wneud rhywbeth arall. Ac yna maen nhw angen arian. Maen nhw wedi arfer ennill arian. Rydyn ni’n eu colli nhw oherwydd bod gennych chi’r amser hollbwysig hwnnw lle os nad ydyn nhw’n cael swydd, maen nhw’n mynd yn ddigalon, maen nhw’n mynd i ddod o hyd i rywbeth arall, ac yna rydych chi wedi’u colli nhw”

“Mae diffyg cefnogaeth gwirioneddol ar ôl 25 oed. Mae llawer o’r ffocws ar ieuenctid tan 25. Er bod hyn yn wych, mae bwlch mawr ar gyfer cefnogaeth i rai sy’n 25–30oed mewn sector lle gall gymryd amser hir i ddechrau. Mae cymaint o bethau gwych i ieuenctid ond yna maen nhw’n cwmpo oddi ar glogwyn”



Cyflogwyr yn blaenoriaethu symudedd cymdeithasol

Os bydd person ifanc yn cyrraedd y pwynt o wneud cais am rôl lefel mynediad, bydd yn fuddiol iawn iddynt gael cyflogwr sy'n blaenoriaethu symudedd cymdeithasol yn cwrdd â nhw, er mwyn rhoi gwell cyfle iddynt lwyddo mewn marchnad gystadleuol iawn.

These include: Er ei bod hi'n ddyddiau cynnar i lawer o sefydliadau sy'n mynd i'r afael â symudedd cymdeithasol, mae momentwm yn y maes hwn. Mae cyflogwyr sy'n blaenoriaethu symudedd cymdeithasol yn cymryd gwahanol ddulliau, yn dibynnu ar eu maint a'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Casglu data sylfaenol ar ddsbarth;
- Blaenoriaethu pobl leol mewn ceisiadau;
- Ailystyried yn fanwl y rhagofynion ar gyfer rolau a pha gymwysterau sydd eu hangen mewn gwirionedd;
- Ailystyried arferion ynghylch sut i ddewis yr ymgeiswyr 'gorau' e.e. gwerthoedd ac angerdd dros gymwysterau;
- Ailystyried normau'r sector e.e. interniaethau di-dâl a cheisio cydweithrediadau ariannu;
- Creu mwy o gyfleoedd lefel mynediad gan gynnwys y rhai sy'n anelu at fod yn gyflogwr 5% Club - mudiad deinamig o gyflogwyr sydd wedi ymrwymo i ennill a dysgu fel rhan o adeiladu a datblygu'r gweithlu sydd ei angen arnynt fel rhan o genedl gymdeithasol symudol, ffyniannus a chydlynus;
- Tyfu piblinellau talent yn fewnol;
- Creu cyfleoedd ar gyfer profiadau ychwanegol ar CVs sy'n targedu grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn uniongyrchol;
- Recriwtio rolau newydd i ymdrin yn fwy systematig â gwirfoddoli, lleoliadau, prentisiaethau ac ati;
- Ystyried yr opsiwn trafndiaeth i osgoi trwyddedau gyrru fel rhagofyniad e.e. rhannu ceir.

Cyflogwyr yn blaenoriaethu symudedd cymdeithasol

“Meddylwch ddwywaith cyn rhoi ‘graddedig’ neu hyd yn oed ‘Safon Uwch’ i lawr. Hyd yn oed gyda’r ‘neu gyfwerth’ cyffredin, mae’r rhain yn dal i dybio bod cyfres o opsiynau bywyd ar gael i ychydig. Nid yw i symleiddio gofynion i eithrio’r cymwysterau hyn. Yn hytrach, mae’n golygu meddwl yn gliriach am y sgiliau a’r profiad gwirioneddol sydd eu hangen ar gyfer Manyleb y Person. Nid mesur cynnwys yn unig yw hwn – mae’n debygol o arwain at well ffit”

“Rydym yn cwestiynu’n fawr pam mae pethau mewn ffordd benodol ac a allai hynny newid. Rydym hefyd yn meddwl llawer am y cynulleidfaoedd rydym yn ceisio eu cyrraedd”

“Anaml y byddwn yn cael pobl leol yn gwneud cais ond os bydd, byddwn bob amser yn rhoi cyfweiliad iddynt”



Heriau wrth dargedu symudedd cymdeithasol

Mae'n gyfnod anodd i lawer o gyflogwyr, yn enwedig cyrff anllywodraethol llai, gydag economi nad yw'n fywiog a thirwedd ariannu wael iawn. Lle mae sefydliadau wedi cael trafferth ymgorffori mentrau symudedd cymdeithasol, mae hyn yn aml wedi bod oherwydd diffyg cyllid neu adnoddau. I sefydliadau llai a mwy, gall partneriaethau strategol fod yn allweddol i symud pethau ymlaen.

Gall fod gwrthwynebiad diwylliannol hefyd i archwilio dosbarth mewn rhai sefydliadau. Gall hyn hefyd greu problemau wrth geisio casglu data meincnod os oes diffyg ymddiriedaeth ynghylch pam mae data'n cael ei gasglu.



Heriau wrth dargedu symudedd cymdeithasol

“Byddem wrth ein bodd yn cael mwy o aelodau staff a byddem wrth ein bodd yn cael mwy o gyfleoedd fel 'na i allu tyfu ein tîm. Ond y rhwystrau mwyaf i ni bob tro fel elusen yw cyllid ac amser. Felly diffyg cyllid i allu cynyddu ein rolau a chymryd nodau newydd a rhoi'r cyfleoedd hynny allan yna”

“Dw i'n credu, fel sefydliad, ein bod wedi canolbwyntio'n fawr ar amrywiaeth hiliol, LHDT, yn eithaf dealladwy, ond mae wedi osgoi symudedd cymdeithasol yn weithredol, dw i'n credu, oherwydd dw i'n credu pe byddent yn agor y caead, y byddent yn cael tipyn o sioc”

“Dw i'n credu bod dosbarth yn herio'r cysyniad o deilyngdod a dw i'n credu bod pobl yn teimlo'n anghyfforddus ynglŷn â hynny”

“Rydym am gasglu data i yrru strategaeth ond rydym wedi cael trafferth – dw i'n credu bod diffyg ymddiriedaeth ynghylch *pam* rydym yn gofyn y cwestiynau hyn. Nid yw pobl eisiau ailadrodd pethau, yn enwedig os ydynt wedi bod yn symudol yn gymdeithasol, ac maen nhw'n credu y bydd yn mynd yn erbyn cyfleoedd yn y dyfodol”

“Rydym yn brin o bobl, mae angen partneriaethau strategol arnom i ddatgloi a hwyluso newid”

Cynnydd mewn sefydliadau

Er nad oedd yr astudiaeth hon yn gallu ymchwilio i ddatblygiad sefydliadol yn fanwl iawn, fe ddaeth i'r amlwg mewn cyfweiliadau â rhanddeiliaid. [Profwyd](#) bod dosbarth cymdeithasol yn un o'r rhwystrau cryfaf i ddatblygiad gyrfa o fewn sefydliadau a gall hyn fod oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys; mynediad anghyfartal at gyfleoedd, cyfalaf diwylliannol a ffit, hyder a hunan-gyflwyniad, rhagfarn anymwybodol mewn rheolwyr a chyfyngiadau ariannol.

Lle mae angen lefel uchel o gymhwysedd technegol i symud ymlaen (e.e. mewn cyfrifeg neu'r gyfraith) gall symudedd cymdeithasol fod yn fwy oherwydd gellid dadlau y gall unrhyw un ddysgu'r cymhwysedd hwnnw. Fodd bynnag, yn y sector cadwraeth, yn aml mae angen 'sgiliau meddalach' i symud ymlaen ac felly mae gan gyfalaf diwylliannol nifer o fanteision.

Mewn sefydliadau sy'n ceisio ymgorffori symudedd cymdeithasol mewn strategaethau Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant, dylid rhoi sylw i gynnydd o fewn sefydliad, a'r manylion unigryw sydd ar waith yma.



Cynnydd mewn seyfdliadau


“Nid yw dim o hyn yn cael ei fynegi ar lafar, oherwydd ei fod yn anodd ei fynegi. A'r hyn dw i wedi'i ddysgu yw bod angen lefel uchel o sgil wleidyddol arnoch i gyrraedd haenau uchaf y sefydliad a lefel uchel o adeiladu perthnasoedd. Dealltwriaeth o'r ffordd ymhlyg o wneud pethau nad yw wedyn yn cael ei fynegi i'n staff iau. Yr hyn sydd ei angen ar y bobl hyn yw cyrsiau pŵer a gwleidyddiaeth i bob pwrpas, oherwydd dyna beth ydyw, ond ni fydd neb yn gallu ei ddiffinio mewn geiriau”

“Mae fy ngŵr yn llawer mwy dosbarth canol na fi. Felly rwy'n ein cymharu ni fel hyn bob amser. Dim ond y math o sgysiau cyffredinol sydd ganddo ef a'i rieni am faterion cyfoes, am, wyddoch chi, eu bod nhw wedi teithio llawer a'r pethau bach y mae wedi'u dysgu a'u profi o ddod o'r cefndir mwy breintiedig hwnnw. Mae ganddo wybodaeth sylfaenol uwch a dw i'n gweld eu bod nhw'n aml yn cael sgysiau am bethau fel 'na a dydw i ddim mor wybodus mewn gwirionedd”

“Felly dw i'n credu mai'r hyn y byddech chi'n ei weld yw dosbarth canol neu addysg breifat fydd yn gwneud y symudiadau hynny. Dw i'n credu weithiau y dosbarth gweithiol, mae yna gyfyng-gyngor moesol ynglŷn â hynny, ynglŷn ag ymddygiad rhoi eich hun ymlaen, brolio, arddangos, rhwydweithio a sut ydych chi'n pontio'r bwlch hwnnw?”

“Rydyn ni'n dweud nad oes cod gwisg, ond oes, yn wir, mae cod gwisg!”

Model o Newid System





Sut mae croestoriadedd yn datblygu?

Mae croestoriadedd â dosbarth cymdeithasol yn ymddangos yn hynod gymhleth. Gellir profi rhai croestoriadau, fel anabledd a dosbarth cymdeithasol, fel 'anfantais ddwbl' gyda'r ddau ffactor yn lleihau symudedd cymdeithasol ar wahân. O ran ethnigrwydd mae data meintiol sy'n [awgrymu](#) os ydych chi o gefndir du a chefnidir economaidd-gymdeithasol is yna mae hynny hefyd yn gwaethygu'r anfantais y gallech chi ei phrofi yn y gweithle, gyda menywod du o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn cael eu dyrchafu arafaf.

Fodd bynnag, mae symudedd cymharol, cryfder y cysylltiad rhwng galwedigaeth plentyn a'i rieni, hefyd wedi'i [ddangos](#) i fod yn fwy 'anhyblyg' ymhlith Prydeinwyr gwyn nag ymhlith lleiafrifoedd ethnig lle mae mwy o 'hylifedd'. Y grŵp mwyaf 'dan anfantais' o ran cyrraedd addysg uwch yw [bechgyn dosbarth gweithiol gwyn](#) hefyd; dim ond 10% o'r bechgyn dosbarth gweithiol gwyn mwyaf dan anfantais fydd yn cyrraedd addysg uwch.

Yn Llundain, gall cynnydd fod yn [gryfach](#) i grwpiau ethnig lleiafrifol gweladwy gydag amrywiaeth a rhwydweithiau'r ddinas yn cefnogi canlyniadau gwell na rhanbarthau eraill.

Byddai rhai pobl o liw sydd hefyd yn dod o gefndiroedd dosbarth gweithiol, yn dweud mai eu dosbarth nhw yw'r un y maent wedi cael yr her fwyaf i'w lywio. Fodd bynnag, mae bod yn 'ddosbarth gweithiol' weithiau hefyd yn llai cysylltiedig â phobl o liw ac mae angen mwy o welededd arno.

Oherwydd darlun cymhleth, byddai ymyriadau sy'n mynd i'r afael â symudedd cymdeithasol yn gwneud yn dda i gynnwys amrywiaeth o wahanol segmentau targed mewn unrhyw waith e.e. bechgyn dosbarth gweithiol gwyn a menywod dosbarth gweithiol o liw, er mwyn sicrhau bod lled y profiadau wedi'i gynnwys mewn atebion.

Sut mae croestoriadedd yn datblygu?

“Cefais fy magu mewn teulu rhiant sengl mewn ystâd gyngor ac yn amlwg o gefndir ethnig. Doeddwn i ddim wedi myfyrio ar hynny mewn gwirionedd nes i ni siarad amdano. Ond ie, mae'n adran ar goll, onid yw, o'r gefnogaeth honno? Ac yn amlwg mae'r holl nodweddion gwarchoddedig eraill yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'ch profiad, ond mewn gwirionedd weithiau rhyngweithiadau wyneb yn wyneb, gall fod y cefndir cymdeithasol gwahanol hwnnw sydd fwyaf anodd ei oresgyn”

Dydw i ddim yn credu bod dealltwriaeth genedlaethol ehangach o dduder fel dosbarth gweithiol. Dw i'n credu pan fydd person gwyn yn meddwl am berson dosbarth gweithiol, maen nhw'n meddwl am bobl o'r gogledd sy'n gweithio yn y pyllau glo, dyweder. Os ydym am symud pethau ymlaen o safbwynt hiliol, mae'n rhaid i ni gydnabod bod llawer o boblogaeth y dosbarth gweithiol yn ddu. Ac nid wyf yn credu bod y cysylltiad hwnnw o reidrwydd yn cael ei wneud ym mlaen meddyliau pobl a bod hynny'n anfantais iddyn nhw.”

Newid Sylweddol

Argymhellion Cyffredinol

1. LLWYBRAU GALWEDIGAETHOL

Er mwyn i symudedd tuag i fyny ar raddfa fawr ac eang fod yn bosibl, mae angen mwy o gyfleoedd i bobl symud i fyny iddo, ac nid yn unig o'r llwybr graddedigion. Credir bod ymdrechion symudedd cymdeithasol wedi methu pan fu gormod o ffocws ar y llwybr academaidd o gael pobl ifanc dan anfantais i swyddi uchel trwy brifysgolion elitaidd, gan ffafrio'r ychydig ffodus. Mae angen rhoi mwy o sylw i'r bobl hynny sydd â'r lleiaf o hyfforddiant a chymwysterau i roi gwell cyfle iddynt ddod o hyd i swydd dda.

Mae angen nodi'r angen, y nifer a'r cyllid hirdymor ar gyfer cyfleoedd galwedigaethol newydd cyn datblygu cynllun peilot llwybr cadwraeth forol galwedigaethol cwbl gydgysylltiedig i dargedu rhwystrau llwybr hysbys.

2. LLWYBRAU GRADDEDIGION

Mae prinder enfawr o swyddi cadwraeth forol lefel mynediad i raddedigion i bawb, hyd yn oed cyn troshaenu symudedd cymdeithasol. Er bod polisi'r llywodraeth yn pwysleisio addysg, hyfforddiant sgiliau ac ehangu mynediad, mae'r diffyg swyddi yn y sector yn golygu y bydd gan unigolion dosbarth canol gyfleoedd cyfyngedig yn lleol hefyd.

Mae angen mynd i'r afael â'r mater economaidd strwythurol hwn ac mae angen mwy o swyddi lefel mynediad i raddedigion ar y sector. Mae angen nodi'r angen, y nifer a'r cyllid hirdymor ar gyfer cyfleoedd newydd i raddedigion.

Bydd angen mwy o ecosystemau o gefnogaeth i bobl ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol yn eu teithiau graddedigion a chael cyflogwyr sy'n ymgorffori symudedd cymdeithasol mewn strategaethau Pobl/AD yn cwrdd â nhw.



1. Peilot Llwybrau Galwedigaethol Cydgysylltiedig i Yrfaeodd Cadwraeth Forwrol

Unwaith y bydd yr angen, y nifer a'r cyllid hirdymor ar gyfer cyfleoedd galwedigaethol newydd wedi'u nodi, mae angen amlygiad cynnar cydgysylltiedig i gefnforoedd, arfordiroedd a swyddi glas mewn ysgolion sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid. Gallai hyn gynnwys diwrnodau cefnfor, ymweliadau maes (safleoedd glaswellt y môr, harbws, ffermydd dyframaethu ac ati), sgyrsiau gan ymarferwyr lleol mewn rolau amrywiol (nid gwyddonwyr yn unig), dangos a dweud a mwy o [adrodd straeon](#) am gyd-destunau lleol (e.e. llên y môr, treftadaeth forwrol). Yn hollbwysig, dylai'r holl sesiynau gynnwys map llwybr lleol clir (yn cael ei ddatblygu gan y [Sea Ranger Service](#)) a chyfeirio at adnoddau a chanllawiau eraill (e.e. datblygu adnodd [Blue Jobs for Nature](#)^[GLA1]). Gellid tynnu ysbrydoliaeth o [Morecombe Bay Curriculum](#) a [Prosiect Siarc](#) a byddai angen cyllid ar gyfer sefydliadau sy'n darparu'r allgymorth a'r cludiant cydgysylltiedig hwn. Gallai partneriaid allweddol posibl gynnwys: ysgolion/colegau, partneriaethau arfordirol, cyrff anllywodraethol lleol a chenedlaethol, [Gwasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru](#), CIEEM, 'ysgolion glas' byd-eang.

Dylid diwallu cysylltedd cynyddol â'r cefnforoedd ac ymwybyddiaeth o lwybrau glas trwy gyfleoedd cydgysylltiedig ar gyfer 'sesiynau blasu' gwaith â thâl. Gallai lleoliadau profiad gwaith yn ystod yr haf o ddwy i chwe wythnos dargedu pobl 16–18 oed a chynnig cyflog byw iddynt, profiad CV, amlygiad i'r sector a chyswllt uniongyrchol â chyflogwyr. Gallai fod yn elfen hanfodol o adeiladu hyder ac yn garreg gamu i barodrwydd am waith. Gellid cynnig lleoliadau mewn adfer, monitro, rheoli cefnforoedd ac ymgysylltu cymunedol. Gallai partneriaid allweddol posibl gynnwys: ysgolion/ colegau, partneriaethau arfordirol, clybiau ieuenctid, cyflogwyr lleol a chenedlaethol, Antur Cymru.

Mae angen mwy o gyfleoedd ar gyfer 'cyn-brentisiaethau'. Gallai'r rhain gynnwys rhaglenni â thâl 6–9 mis sy'n cyfuno gwaith maes a hyfforddiant tebyg i fodel y Sea Ranger Service, gan greu ymgeiswyr sy'n barod i weithio ac sydd â sgiliau rhagorol. Gellid cyflwyno'r rhain mewn partneriaeth â darparwyr addysg bellach a chynnwys cylchdroadau ar draws adfer, diwydiannau morol ac allgymorth.

Mae angen datblygu'r prentisiaethau cadwraeth forol cyntaf sy'n cynnig cyflogaeth sefydlog yn y sector ac arbenigedd. Gan dargedu pobl 18–25 oed, gellid cyflwyno prentisiaethau trwy gydweithio â sawl partner allweddol gan gynnwys: colegau/darparwyr addysg bellach, Medr, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, cyflogwyr lleol a chenedlaethol, partneriaid diwydiant, mentrau cymunedol a phrifysgolion.

Mae angen cyllid mewn fformatau sefydlog a hyblyg i ariannu'r llwybr galwedigaethol cydgysylltiedig hwn. Gallai cyflogwyr lleol a chenedlaethol ddefnyddio cronfeydd hyblyg ar gyfer lleoliadau, costau trafniadaeth ac ati, tra gallai cyllid sefydlog gyflawni'r fframwaith prentisiaethau. Gallai'r cyfuniadau cyllido sydd eu hangen gynnwys: cyllid cyhoeddus (cyllidebau sgiliau a hinsawdd/natur), cyllid preifat (e.e. cyflogwyr mawr) a dyngarwch.

2. Trawsnewid Llwybrau Graddedigion i Yrfaeodd Cadwraeth Forol

Anogir cyflogwyr i ystyried y canlynol yn eu Strategaethau Gwerth Cymdeithasol a Phobl i gefnogi llwyddiant graddedigion o gefndiroedd dosbarth gweithiol yn well. Rydym yn cydnabod y bydd maint a chyllid cyflogwr yn pennu'r hyn y gallant ei gyflawni'n realistig:

- o Casglu data ar ddosbarth cymdeithasol at ddibenion meincnodi (gan gynnwys data effaith ar unrhyw ymyriadau symudedd cymdeithasol);
- o Ystyried dod yn gyflogwr 5% Club 5% i agor mwy o gyfleoedd lefel mynediad;
- o Ystyried realiti ariannol pobl ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol mewn manylebau swyddi e.e. yr angen am drwydded yrru/car, pecynnau adleoli ac ati
- o Ailystyried yn ddwfn ragofynion ar gyfer rolau a newid y 'rheolau' lle bo modd e.e. cymwysterau lefel gradd meistr;
- o Rhoi cynnig ar arferion recriwtio sy'n cael eu harwain gan werthoedd;
- o Ailfeddwl am arferion ynghylch sut i ddewis yr ymgeiswyr 'gorau' e.e. gwerthoedd ac angerdd dros gymwysterau;
- o Creu cyfleoedd ar gyfer profiadau ychwanegol sy'n targedu grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn uniongyrchol e.e. gwaith maes preswyl yn y DU;
- o Cynnig mwy o gyfleoedd mentora i bobl ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Partner allweddol: Mullany Trust
- o Ystyried cynnydd mewnol i bobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol, gan gynnwys cynnig hyfforddiant ar gyfer 'sgiliau meddal';
- o Siarad mwy am ddosbarth symudedd cymdeithasol/rhannu straeon;
- o Dylanwadu ar gyflogwyr eraill ar symudedd cymdeithasol





Mae mesurau ychwanegol i gefnogi pobl ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol yn well ar hyd y llwybr hwn yn cynnwys:

- Cydnabod y gall y daith i'r sector cadwraeth forol fod yn anwadal ac yn hirfaith a bydd angen cefnogaeth yn fwyaf tebygol am gyfnod hirach. Gallai sefydliadau sy'n cefnogi pobl 'ifanc'/llais pobl ifanc yn y sector ehangu cyfleoedd i gynnwys pobl 25-30 oed hefyd.
- Cyfathrebu gwell a mwy aml ymhlith rhanddeiliaid - yn benodol rhwng cyflogwyr, colegau, a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol - ynghylch y galw am lafur, y setiau sgiliau gofynnol, a'r duedd ymgeisio.
- Esblygu'r interniaeth ddi-dâl gyda chydweithrediad. Datblygu partneriaethau mwy strategol rhwng y sefydliadau hynny a all gynnig interniaethau lleol a'r rhai sydd â'r adnoddau a'r cyllid i'w gwneud yn rhai gyda thâl. Ystyried interniaethau a rennir a photiau ariannu hyblyg.
- Cefnogi arloesi - caniatáu i bobl ifanc greu eu swyddi eu hunain drwy gael mynediad at ficro-gyllid a mentora. Creu pecynnau cymorth arloesi i raddedigion ddatblygu busnesau morol a chydweithfeydd (e.e. gwymon, pysgod cregyn, eco-dwristiaeth ac ati).
- Mae angen cyllid i drawsnewid llwybrau graddedigion, mewn fformatau sefydlog a hyblyg. Gallai cyflogwyr lleol ddefnyddio cronfeydd hyblyg ar gyfer interniaethau â thâl a gallai cyllid sefydlog gefnogi pecynnau arloesi wrth ddatblygu busnesau morol. Gallai'r cyfuniadau cyllido sydd eu hangen gynnwys: cyllid cyhoeddus (cyllidebau sgiliau a hinsawdd/natur), cyllid preifat (e.e. cyflogwyr mawr) a dyngarwch.

Cysylltu â Ni

Eisiau mynd â'r sgwrs hon ymhellach?

Eisiau cymryd rhan neu gydweithio?

Eisiau i ni gadw cysylltiad ynglŷn â'r camau nesaf?

Cyswllt:

Rosie Tudor, Pelagos: rosie@pelagos.com

Tim Brew, Fforwm Arfordir Sir Benfro

tim.brew@pembrokeshirecoastalforum.org.uk

Cais i Ymuno â:

Cymuned Ymarfer Symudedd Cymdeithasol – Sector Morol ac Arfordirol

rosie@coastms.co.uk

emily@emilycunningham.co.uk

Pelagos

